

Derbyn a Blwyddyn 1 Mrs. Nia Vaughan Jones

Staff

Mrs Nia Vaughan Jones
Mrs Ann Griffith
Miss Linda Owen
Mrs Glynis Ellis
Mrs Menna Jones

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ôl darllen gyda'ch plentyn. Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael llyfr sŵn i fynd adre bob Dydd Gwener.

Addysg Gorfforol/Nofio

Mae ein gwersi Addysg Gorfforol ddwy waith yr wythnos.

Dydd Mercher - tu allan, bydd eich plentyn angen esgidiau addas.

Dydd Iau - Tu mewn, yn neuadd yr ysgol, bydd eich plentyn angen siort a chrys T

Thema

Tylluanod

Bydd holl weithgareddau y dosbarth yn deillio o'r thema yma.

Byddwn yn.....

- Gwrando ar storiâu tylluanod, cofio ac adrodd y stori.
- Adnabod ac enwi'r tylluanod.
- Dysgu gwybodaeth am y tylluanod.
- Edrych ar lyfrau gwybodaeth a llyfrau storiâu am y tylluanod.
- Gwneud llyfrau gwybodaeth, storiâu a cherddi am dylluanod.
- Gwneud modelau o dylluanod.
- Ymwelydd yn dod i sgwrsio am dylluanod.
- Adio a thynnu hefo tylluanod.

Tripiau/Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gyd fynd â'r thema, e.e. Yn yr ardal toes a chlai bydd cyfle i'r plant wneud model o dylluan.

Hefyd bydd y gweithgareddau tu allan yn deillio o'r thema'r dosbarth, ee helpa drysor y tylluanod.